# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD)** |
| **DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR, 2013 am 10 o'r gloch y bore** | **TUESDAY, 10 DECEMBER, 2013, at 10:00 a.m.** |
| **YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFEYDD PENRALLT, CAERNARFON** | **GLYDER FAWR ROOM, PENRALLT OFFICES, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor    Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Beth Lawton, Peter Read, Caerwyn Roberts (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Gareth Thomas, Eirwyn Williams

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Jeff Evans, Derlwyn R.Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M.Huws, G.O.Jones (Cadeirydd/Chair), R.Meirion Jones, R.Llewelyn Jones

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Y Parch.Rev.Lloyd Jones (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

**AELOD DI-BLEIDLAIS/NON-VOTING MEMBER**

Cynghorydd/Councillor Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg Ynys Môn/Isle of Anglesey Portfolio Member for Education)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 20 MEDI, 2013** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **UNED DDARPARU AAA** (Tudalennau 7 - 14)

- Cyflwyno adroddiad ar weithgareddau'r Uned Ddarparu AAA yn ystod tymor y Haf, 2013.

- Cyflwyno gohebiaeth anfonwyd at Aelod Cynulliad Ynys Môn ac at Aelod Seneddol Ynys Môn ynglyn ag anawsterau mewn perthynas â hyfforddi Seicolegwyr Addysgol yng Nghymru.

4 **ADOLYGIAD CYLLIDEB 2013/14** (Tudalennau 15 - 16)

Cyflwyno diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â chyllideb gyfredol 2013/14 y Cyd-Bwyllgor.

5 **CYFARFOD NESAF**

10:30 y bore, dydd Gwener, 14 Mawrth , 2014 yng Nghaernarfon.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2013

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Gwilym O.Jones (Cyngor Sir Ynys Môn) (Cadeirydd)
Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)

**Cyngor Gwynedd**

Cynghorwyr Annwen Hughes, Beth Lawton, Gareth Thomas, Eirwyn Williams

**Cyngor Sir Ynys Môn**

Cynghorwyr Jeff Evans, Derlwyn Hughes, Llinos M.Huws, R.Meirion Jones

Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg Cyngor Sir Ynys Môn (Aelod Di-Bleidlais)

**Yr Eglwys**

Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion)

**WRTH LAW**:

Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysgol)
Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd)
Mrs Delyth Molyneux (Uwch Reolwr Disgyblion a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd)
Mr William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU**:

Cynghorwyr Elin Walker Jones, Peter Read (Cyngor Gwynedd), Cynghorwyr Trefor Ll.Hughes, R.Llewelyn Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr. Gwynne Jones, Mr Gwilym Ellis Jones a Mair Read.

**HEFYD YN BRESENNOL**:

Mrs Bethan Morris Jones (Pennaeth Ysgol Glancegin, Bangor) (ar gyfer eitem 3), Amanda Hughes (Swyddfa Archwilio Cymru)

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor i bawb oedd yn bresennol yn Aelodau ac yn Swyddogion.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf, 2013 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

### 3. PUM CAM I SEFYDLU TREFNIADAETH GADARN AR GYFER GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Bethan Morris Jones, Pennaeth Ysgol Glancegin, Bangor i'r cyfarfod ac fe'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod ar destun y pum cam i sefydlu trefniadaeth gadarn ar gyfer Gofal, Cymorth, ac Arweiniad.





DRAFT

Eglurodd Mrs Bethan Morris Jones ei bod wedi derbyn cais i roi trosolwg i'r Cyd-Bwyllgor fel y fforwm â goruchwyliaeth dros faterion anghenion dysgu ychwanegol yn y ddwy sir ar y gwaith a wnaed yn Ysgol Glancegin, Bangor yn ystod y cyfnod chwe blynedd diwethaf i fynd i'r afael â phroblemau yn yr ysgol a amlygwyd gan arolygiad Estyn a gynhaliwyd yn 2007. Dywedodd bod y cyfnod hwnnw wedi bod yn daith i holl boblogaeth yr ysgol yn arwain at gyhoeddi adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn yn gynharach y flwyddyn hon oedd yn dyfarnu bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda a bod ei rhagolygon ar gyfer gwella hefyd yn dda. Yn ogystal, bu i'r Arolygydd yn adroddiad 2013 ganfod bod safonau lles yr ysgol yn rhagorol a bod y gofal, cymorth ac arweiniad a rydd wrth hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn yr un modd yn rhagorol. Dywedodd y Pennaeth ei bod felly am ganolbwyntio yn ei chyflwyniad ar y rhan hwn o'r adroddiad arolygu sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol gan dynnu ohono i ddangos sut mae'r cynlluniau a'r strategaethau a roddwyd ar waith yn dilyn yr arolygiad chwe blynedd yn ôl wedi dwyn ffrwyth ac wedi esgor ar ddeilliannau cadarnhaol iawn yn yr ysgol ar ffurf ymddygiad arbennig o dda; agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu; y disgyblion yn ymfalchïo yn eu cyfrifoldebau ac yn cymryd rhan arweiniol mewn nifer o weithgareddau; y disgyblion yn teimlo bod eu llais yn bwysig a'u bod yn cael gwrandawiad gan oedolion, ynghyd â chynnydd sylweddol mewn lefelau presenoldeb ac mewn safonau fel ei gilydd.

Yn ei chyflwyniad wedyn, bu i Bennaeth Ysgol Glancegin gyfeirio at y wybodaeth a'r ystyriaethau canlynol –

- **Y Cyd-Destun** - Amgylchfyd cymdeithasol Ysgol Glancegin ar stâd Maesgeirchen ym Mangor, sef ardal y'i hystyrir yn un o dan anfantais cymdeithasol. Mae dros 97% o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn ardal sydd ymhlith yr 20% mywaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 42% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau cinio am ddim a 41% o'r disgyblion wedi'u hadnabod fel rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol. Sefydlwyd Cylch Meithrin yn yr ysgol wedi'i gyllido trwy Cymunedau'n Gyntaf sy'n derbyn 60 o blant ac yn darparu addysg Gymraeg ar eu cyfer am 12½ awr yr wythnos gyda'r bwriad o roi cychwyn cadarn iddynt.

- **Y Pum Cam**

    - Hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion

      Barn yr Arolygydd oedd bod athrawon a staff ategol yr ysgol yn ymroi'n drwyadl i roi cefnogaeth fugeiliol o safon uchel sy'n ateb anghenion yr holl ddisgyblion. Gweithredwyd ystod o strategaethau effeithiol yn gyson a chadarn i feithrin parch at eraill a hybu ymddygiad da. Cyfeiriodd y Pennaeth yn neilltuol at strategaeth dan yr enw Therapi Canolbwyntio ar Ddatrysiad sy'n rhoi sylw i'r hyn sy'n dda mewn unrhyw sefyllfa yn hytrach na'r hyn sydd wedi mynd o'i le gan annog a hyfforddi plant i feddwl yn bositif amdanynt eu hunain. Canlyniad hyn oedd y gwelwyd cynnydd arwyddocaol mewn safonau lles plant a fagodd yn ei dro effaith gadarnhaol ar y staff a'r rhieni.

      Cam allweddol arall oedd creu system benodol ar gyfer anghenion addysg arbennig ar sail tair haen o ymyrraeth lle'r ymwna haen 1 â chanolbwyntio ar sgiliau sylfaenol a chynnal ymarferion sgiliau dyddiol gyda'r plant gyda golwg ar godi safon y sgiliau hynny ac ar yr un pryd meithrin a chodi hunan hyder y plant hefyd. Esboniodd y Pennaeth bod yna ddisgwyliadau ar y staff a'r disgyblion ym mhob sefyllfa.

    - Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol ar arbenigedd ystod eang o wasanaethau er mwyn cynnal iechyd personol a chymdeithasol disgyblion ar draws yr ysgol.

      Bu'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Seicolegydd Addysg i greu cynllun ymyrraeth a dogfen monitro cynnydd.Sefydlwyd Grwp Cyfathrebu a Darparu i feithrin cyd-weithio effeithiol gyda'r gwasanaeth iechyd a lles. Bu i'r ysgol ddatblygu trefn o gyd-weithio cymunedol gyda Chymunedu'n Gyntaf, Partneriaeth Maesgeirchen er mwyn codi proffil yr ysgol o fewn ei chymuned a sefydlwyd cysylltiadau gdyag Adran Seicoleg Prifysgol Bangor a chyfranogi ym Mharterniaeth Ymestyn Ehangach y Brifysgol.

    - Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn iawn yn yr ysgol ym marn yr Arolygwyr.

Cyrhaeddwyd y sefyllfa hon trwy osod mewn lle systemau effeithiol i adnabod anghenion unigolion o oed cynnar i asesu a thracio cyflawniad a chynnydd yr unigolyn yn gyson trwy ddefnydd o ddata mewnol a defnydd o brofion statudol i gadarnhau'r cynnydd a newid y lefel ymyrraeth. Cyfeiriodd y Pennaeth at graff oedd yn dangos y newid cadarnhaol ym mherfformiad ar ôl blwyddyn o weithredu cyfundrefn o ymyrraeth a thargedu sgiliau plant gyda llai na 5% o ddisgyblion wedyn yn perfformio o dan y trothwy disgwyliedig.

- Mae'r tîm cynhwysiad yn darparu cymorth trylwyr i athrawon ac yn cyd-weithio'n agos iawn gyda nhw i sicrhau dilyniant a chynnydd disgyblion gydag anghenion ychwanegol.

  Yn Ysgol Glancegin mae yna chwe chymhorthydd rhwng y ddwy adran ac mae arweinydd y tîm cynhwysiad yn rhan o'r grwp Cyfathrebu a Darparu. Ceir cysylltiad rheolaidd rhwng y tîm a'r Cyd-lynydd Anghenion Ychwanegol a chyfathrebu dyddiol hefyd rhwng y cymorthydd a'r athro. Mae Therapyddion Iaith a Lleferydd yn gosod y targedau. Cyfeiriodd y Pennaeth at lyfryn Asesu a Monitro Llythrennedd Cymraeg a Saesneg a ddefnyddir i dracio cynnydd plentyn yn fanwl ac fe ddangosodd enghraifft o effaith hyn drwy gyfeirio at siart lliw yn dangos ffyniant y disgyblion.

- Gwneud defnydd effeithiol o bob ystafell yn yr adeilad gan ddefnyddio rhai i sefydlu adnoddau ychwanegol

  Dangosodd y Pennaeth sut yr aethpwyd ati i wella amgylchedd dysgu'r ysgol a'i wneud yn ddeniadol a symbylus i staff a phlant fel ei gilydd. Er enghraifft, trwy greu ystafell gyfarfod bwrpasol i'r diben, rhoddwyd statws hefyd i gyfarfodydd rhieni.Yn neilltuol, cynhaliwyd prosiectau celfyddydol yn rheolaidd gan roi ffocws gan amlaf ar gymuned Maegeirchen, a thynnu rhieni i mewn i fod yn rhan o'r gwaith. Un nodwedd o weithgareddau'r ysgol yw'r Grwp Maethu sy'n canolbwyntio ar y plant hynny y maent wedi colli allan yn y blynyddoedd cynnar o safbwynt datblygu sgiliau. Dywedodd y Pennaeth bod negeseuon cadarnhaol hefyd yn cael eu hatgyfnerthu yn weledol trwy'r dosbarthiadau a'r coridorau yn yr ysgol. At hynny, fe sefydlwyd aelwyd , sef ystafell ddosbarth sy'n ymdebygu i ystafell yn y cartref ar gyfer y plant hynny y mae eu sgiliau sylfaenol yn wan gyda golwg ar roi cyfle iddynt ddatblygu'r sgiliau hynny mewn amgylchedd anffurfiol.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Ysgol Glancegin am gyflwyniad oedd yn agoriad llygaid.

Dywedodd Uwch Reolwr Disgyblion a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd bod taith Ysgol Glancegin wedi bod yn un a gymerodd sawl blynedd ac a gyflawnwyd trwy gyd-weithrediad rhwng yr ysgol ac ystod o wasanaethau. Yn anad dim, mae'r ysgol wedi sicrhau ei bod yn ysgol gynhwysol nad yw wedi cau'r drws ar unrhyw unigolyn. Mae cyd-weithrediad aml-asiantaethol wedi bod yn allweddol i'w llwyddiant yn enwedig yng nghyfnod y blynyddoedd cynnar ac mae wedi datblyu ethos a diwylliant a dulliau dysgu cadarnhaol. Ni fwriadwyd yr un o'r strategaethau na chynlluniau a fabwysiadwyd gan Ysgol Glancegin i fod yn ddatrysiad dros nos i'w phroblemau – yn hytrach maent wedi ymsefydlu ac wedi cael effaith dros gyfnod o amser gan gario pob aelod o staff pob cam o'r ffordd. Mae'r ysgol yn awr yn ysgol lle mae'r disgwyliadau yn uchel.

Cydnabu Aelodau'r Cyd-Bwyllgor yr ymroddiad a'r ymdrechion a'r dyfalbarhad a aeth i mewn i wyrdroi sefyllfa Ysgol Glancegin a thrwy hynny i roi'r cyfle gorau i blant yr ysgol a'r gymuned wireddu eu potensial, ac fe longyfarchwyd y Pennaeth a'i staff a'r gwasanaethau cefnogol am hynny. Ar y llaw arall, gwnaed y y pwynt hefyd ei bod yn anodd iawn i blant mewn unrhyw ardal sy'n cael ei hadnabod fel un ddifreintiedig ryddhau eu hunain o'r dylanwadau economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgîl hynny er cymaint y mewnbwn i'w datblygiad, ac yn aml oherwydd hynny nid yw plant o gymunedau tebyg yn cyflawni i'r un graddau â phlant o gymunedau llewyrchus. Mae'r disgwyliadau ar gyfer cymunedau llai breintiedig yn is a chan amlaf ni wna'r cymunedau hyn gyrraedd tu hwnt i'r disgwyliadau. Serch hynny, mae anogaeth a chefnogaeth i blant tebyg i'r hyn a welwyd yn Ysgol Glancegin yn gam ymlaen.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Glancegin os llwyddir i arfogi plentyn sy'n gadael yr ysgol i feddwl y gall lwyddo yna mae'r tebygrwydd y gwneith hynny gymaint yn fwy.

Dywedodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd y gwahoddwyd Pennaeth Ysgol Glancegin i wneud cyflwyniad i'r Cyd-Bwyllgor yn sgîl y drafodaeth a gododd yn y cyfarfod blaenorol yn ymwneud â'r holiadur ysgolion pryd yr amlygwyd bod y proffesiwn dysgu'n teimlo ei fod yn wynebu mwy a mwy o'r math o faterion a welwyd yn codi yn Ysgol Glancegin mewn perthynas ag ymddygiad a chyrhaeddiadau. Mae Ysgol Glancegin yn enghraifft o waith arloesol gyda chymuned yr ysgol yn ei chyfanrwydd i symud plant yn eu blaenau pa beth bynnag yr amgylchiadau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a roddwyd trwy'r cyflwyniad a diolch i Bennaeth Ysgol Glancegin am roi o'i hamser i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn o'r Cyd-Bwyllgor.**

**4. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2012/13**

4.1 Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon terfynol ôl-archwiliad y Cyd-Bwyllgor am 2012/13 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Atgoffodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd yr Aelodau am y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol ar 5 Gorffennaf pryd yr adroddwyd am y disgwyliadau adrodd ychwanegol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau, sef bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol h.y. cyfrif inwcm a gwariant, a lle mae'r trosiant yn fwy na £1m, eu bod yn yn paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer Cyd-Bwyllgor. Dywedodd y Swyddog y nodwyd yn y cyfarfod blaenorol bod y cyfrifon a gyflwynwyd bryd hynny yn ddarostyngedig i archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae hynny wedi digwydd yn awr ac mae'r ychydig newidiadau ers cyflwyno fersiwn cyn archwiliad y cyfrion wedi'u hamlinellu yn adroddiad ISA260 gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y cwblheir Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a amlinellir yn Atodiad 1 Adrodidad yr Archwilydd, sef ymateb Cyngor Gwynedd fel y corff â goruchwyliaeth ariannol dros weithrediadau'r Cyd-Bwyllgor.

4.2 Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor, adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynglyn â'r archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig.

Cadarnhaodd Amanda Hughes, Swyddfa Archwilio Cymru mai barn yr Archwilydd Penodedig ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyd-Bwyllgor yw eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth, 2013 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny a'u bod wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2012/13. Fodd bynnag, dygir sylw'r Aelodau at y ffaith nad oedd y Cyd-Bwyllgor fel corff llywodraeth leol i bwrpas Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 cyn blwyddyn ariannol 2012/13 wedi cydymffurfio â'r gofyn yn Adran 13 y Ddeddf honno i gynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad blynyddol, a'i fod wedi methu cynhyrchu datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion statudol.Dywedodd ei bod yn annhebygol bod hwn wedi cael effaith berthnasol ar gyfrifon y ddau awdurdod cyfansoddol (Ynys Môn a Gwynedd) ac mai mater cyfrifyddu ydyw gan bennaf ac nid mater yn ymwneud â thalu priod gyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol i'r Cyd-Bwyllgor. Fodd bynnag, er bod yr Archwilydd Penodedig yn arfaethu cyhoeddi adroddiad diamod ar y datganiadau ariannol fe nodir hyn fel mater arall i'w adrodd arno yn adroddiad yr Archwilydd Penodedig.

Eglurodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd er na pharatowyd cyfrifon annibynnol gogyfer y Cyd-Bwyllgor yn y blynyddoedd cynt, fe adroddwyd yn flynyddol am weithrediadau ariannol y Cyd-Bwyllgor fel rhan o gyfrifon Cyngor Gwynedd fel y corff arweiniol ar faterion cyllidol y Cyd-Bwyllgor.

**Penderfynwyd cymeradwyo -**

- **Adroddiad ISA 260 yr Archwilydd Penodedig ar yr Datganiadau Ariannol ynghyd â'r**
- **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-archwiliad am 2012/13.**

DRAFFT

## 5. CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR

Dydd Gwener, 22 Tachwedd, 2013 am 10:30 a.m.

**Cynghorydd Gwilym O.Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

`

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig |
| **DYDDIAD:** | 10fed o Ragfyr 2013 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA |
| **GWEITHREDU**: | Ystyried yr adroddiad |

**CEFNDIR**: Disgrifir gwaith Uned Ddarparu'r Cyd-Bwyllgor AAA yn ystod Tymor yr Haf 2013

# Adroddiad yr Uned Ddarparu AAA

# Tymor y Haf 2013

## 1.0 Gweinyddu Prosesau Asesu ac Adolygu

Ar ddechrau'r tymor, gan fod yr Uwch Swyddog Gweinyddol ar secondiad, roedd ei dyletswyddau wedi eu rhannu rhwng aelodau eraill o'r tîm gweinyddol, a oedd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol i wneud hynny. Hefyd, roedd y prif seicolegydd yn ymgymryd â rhai o'i dyletswyddau.

Roedd un o'r swyddogion clerigol wedi ymddeol, a chyflogwyd rhywun yn ei lle dros dro.

Penderfynwyd, gan fod hyn y sefyllfa gymhleth, y dylid hysbysebu am Uwch Swyddog Gweinyddol newydd, am gyfnod y secondiad, a phenodwyd ein Uwch Swyddog Gweinyddol ar ddiwedd y tymor. Dylid ymestyn croeso iddi.

Hefyd ar ddiwedd y tymor, gadawodd dwy o'n swyddogion clerigol mwyaf profiadol, gan adael blwch amlwg yn y gwasanaeth. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

Yn ffodus, roedd modd cyflogi gweithwraig dros dro yn ystod gwyliau'r haf, oedd o gymorth mawr i ni sicrhau ein bod yn dechrau'r tymor hwn efo'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei gwblhau'n briodol.

## 2.0 Gwasanaeth Athrawon Arbenigol

Ar ddechrau'r tymor, roedd trafodaethau i ystyried cyflogi athrawon newydd. Roedd yn ymddangos nad oedd modd cwrdd ag anghenion y plant i gyd efo maint y tîm presennol, ac yn ogystal â hyn mae nifer o'n hathrawon erbyn hyn yn agosáu at oed ymddeoliad. Mae un o'n hathrawon wedi gadael ei swydd, a dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei menter newydd.

Gwnaethpwyd ymarferiad ym mis Mai a ddangosodd pa mor anodd yw hi i'n hathrawon geisio sicrhau cwrdd ag anghenion addysgol y plant i gyd.

Mae nifer y plant ar lyfrau'r athrawon yn y gwasanaeth Iaith a Chyfathrebu'n golygu y byddai athrawes lawn amser angen gweithio efo 376 o blant yn flynyddol, ac yn yr un modd byddai angen i athrawes yn y Gwasanaeth Meddygol/Corfforol ymwneud a 202 yn flynyddol.

Dydy'r niferoedd yn y gwasanaethau Clyw a Golwg ddim mor uchel, ond mae lleiafrif pwysig o blant angen mewnbwn wythnosol gan athrawes i ddatblygu sgiliau mewn arwyddo a Braille.

Yn hanesyddol nid ydym wedi llwyddo i gyflogi athrawon cymwys sydd hefyd yn rhugl yn Gymraeg, ac wedi cyflogi athrawon dan hyfforddiant a threfnu iddynt fynd ar gyrsiau tra'u bod yn gweithio i ni.

## 3.0 Gwasanaeth Seicoleg Addysgol

Yn ystod y tymor hwn roeddem yn parhau gyda nifer sylweddol llai o seicolegwyr yn ein tîm. Roeddem yn gallu cynnig gwasanaeth i bob ysgol, ond roedd rhaid mynd i bob un yn sylweddol llai aml nag arfer.

Gwnaethpwyd yr ymarferiad arferol o weithredu arolwg holiadur i'n hysgolion, fel y manylwyd arno yn ystod y cyfarfod diwethaf.

Roedd yn siom, er efallai nid yn syndod, i weld nad oedd yr ymateb mor ffafriol ag un llynedd. Rhoddwyd 27 cwestiwn i'r ysgolion, yn gofyn iddynt a oeddent yn hapus gyda nifer o agweddau o'n gwaith efo nhw, ac, ar gyfartaledd dros y cwestiynau i gyd, datganodd 78% eu bod yn fodlon, neu'n falch, o'r gwasanaeth a gawsant. Mae hyn yn cymharu â 85% llynedd, a 83% yn y blynyddoedd cyn hynny.

Wrth ddarllen yr ymatebion ysgrifenedig roedd yn amlwg bod llawer o'r ysgolion wedi rhoi sgôr llai eleni oherwydd nad oeddent yn gweld y seicolegydd yn ddigon aml, nid oherwydd nad oeddent yn hapus efo'u gwaith wedi iddynt gyrraedd. Y canran o'r ysgolion oedd yn fodlon efo maint o amser roeddent wedi derbyn oedd 46%.

Yn ymwybodol o hyn, fe wnaethom hysbysebu am yr ail dro am seicolegwyr newydd ac, fel ar yr achlysur blaenorol ym mis Ebrill, ni chafwyd yr un cais gan seicolegydd cymwys a oedd yn siarad Cymraeg.

Yn hanesyddol rydym wedi cyflogi seicolegwyr tan hyfforddiant, ac wedyn trefnu iddynt fynd ar gwrs priodol, fel rydym wedi ei wneud efo'r athrawon teithiol. Ar hyn o bryd mae 7 o'r 9 seicolegydd sydd yn gweithio i'r gwasanaeth wedi dilyn y patrwm hwn o hyfforddiant.

Felly, ar ddiwedd y tymor, bu i ni gyflogi dwy seicolegwraig gynorthwyol, i geisio lleihau rhywfaint o'r baich, y ogystal â sicrhau hyfforddiant iddyn nhw, a'r bwriad oedd ystyried trefnu iddynt fynd ar gyrsiau hyfforddiant o Fedi 2014.

This page is intentionally left blank

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN
GWYNEDD COUNCIL AND ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig • Special Educational Needs Joint Committee
Plas Llanwnda, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH
☎ 01286 679 Ffacs/Fax 01286 679912

Ein Cyf • Our Ref: Gofynnwch am • Ask for:

Mr Rhun ap Iorwerth, Aelod Cynulliad Cymru
27 Stryd yr Eglwys, Llangefni Ynys Môn
LL77 7DU.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
CF99 1NA.

22/11/13

Annwyl Rhun ap Iorwerth

**Anawsterau Trefnu Hyfforddiant i Seicolegwyr Addysgol yng Nghymru**

Mae'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig yn darparu gwasanaethau seicoleg addysgol i awdurdodau addysg Ynys Môn a Gwynedd, ac rwyf yn ysgrifennu i dynnu'ch sylw at **argyfwng** sydd wedi codi yn y proffesiwn seicoleg addysgol yng Nghymru, ac erfyn arnoch i wneud popeth sydd o fewn eich gallu i'n helpu.

Mae seicolegwyr addysgol yn gweithio efo ysgolion ac awdurdodau addysg i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion addysgol pob plentyn, yn enwedig y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu ychwanegol. Rydym yn wasanaeth statudol ac yn cymryd rhan allweddol yn y broses o lunio a gweithredu Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig yn ôl Deddf Addysg1996.

Yr argyfwng sydd wedi codi yw hyn: mae newidiadau diweddar yn y ffordd mae seicolegwyr yn cael eu hyfforddi wedi arwain at sefyllfa lle mae hi, i bob pwrpas, yn amhosibl i neb o Gymru gael lle ar gwrs hyfforddiant.

Y llwybr i hyfforddiant yw: gradd gyntaf mewn seicoleg, profiad amrywiol yn cynnwys gweithio efo plant, (a all fod, ond nid yn angenrheidiol fel athro,) a chwrs proffesiynol tair blynedd yn arwain at radd ddoethuriaeth.

Mae amryw o gyrsiau ym mhrifysgolion Lloegr ac, tan yn ddiweddar, ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r cwrs yng Nghaerdydd yn cau eleni (gweler y papur ynghlwm, gan gyfarwyddwyr y cwrs). Cyhoeddwyd hyn ar 25/10/13.

Nid yw'n ymarferol i ddarpar-seicolegwyr sydd yn byw, ac yn dymuno gweithio fel seicolegwyr wedyn, yng Nghymru wneud cais am gwrs yn Lloegr. Mae hyn oherwydd , yn ogystal â mynychu'r cwrs am dair blynedd, mae'n ofynnol iddyn nhw

wedyn weithio fel seicolegwyr addysgol i awdurdod addysg, neu mewn ysgolion, yn Lloegr. **Ni ystyrir gweithio mewn awdurdod addysg yng Nghymru yn gyfystyr â gweithio yn Lloegr - ni fyddai hyn yn dderbyniol ganddynt.**

Mae hyn oll yn codi problemau difrifol mewn sicrhau cyflenwad o seicolegwyr proffesiynol yn ein hysgolion a'n hawdurdodau yng Nghymru.  Yn anochel byddai nifer helaeth o'r seicolegwyr rheini sydd wedi mynd i Loegr i hyfforddi yn penderfynu aros yna i weithio yn y tymor hir, o ystyried nad ydynt yn bobl ifanc yn syth o goleg, oherwydd yr angen i gael profiad cyn mynd ar gwrs, ac y byddent erbyn diwedd y 5 mlynedd efo swyddi yn Lloegr.

Mae'r broblem yn llawer mwy dwys yn ein cyd-destun ni yma yn Ynys Môn a Gwynedd, ac yn **wir argyfwng yn barod**, oherwydd yr angen i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hanesyddol rydym wedi profi anawsterau cyflogi seicolegwyr sydd yn rhugl yn Gymraeg, ac wedi cyflogi unigolion fel seicolegwyr tan hyfforddiant, a gwneud trefniadau iddynt hyfforddi a dod yn ôl i'r awdurdodau i weithio.  Ar hyn o bryd mae 9 seicolegydd yn gweithio i'r gwasanaeth, a bu i 7 ohonynt ddilyn y patrwm hyfforddiant yma.

Yn ddiweddar mae seicolegwyr wedi gadael ein gwasanaeth ac rydym wedi methu cyflogi seicolegwyr cymwys sydd yn siarad Cymraeg yn eu lle, er hysbysebu'n genedlaethol dwy waith o fewn y 8 mis diwethaf.

Mae arolygiadau blynyddol rydym yn eu cynnal wedi dangos bod yr ysgolion yn gwerthfawrogi'n gwasanaeth, ond nid ydym yn gallu cynnig cystal gynhaliaeth ar hyn o bryd, gyda llai o gysylltiad rheolaidd â'r ysgolion, ac wedi cyflogi seicolegydd sy'n ddysgrwraig.

**Yn arbennig**, rydym wedi cyflogi dwy seicolegwraig tan hyfforddiant sydd yn brofiadol iawn ac o safon addysgol eithriadol o dda, ac erbyn hyn yn barod i wneud cais am gyrsiau'n dechrau Medi 2014.  Ond nid yw'r cwrs yng Nghaerdydd yn weithredol bellach ac nid ydynt yn dymuno mynd i hyfforddi yn Lloegr, ac wedyn gorfod gweithio yna am ddwy flynedd yn ychwanegol.  Maent yn Gymry Cymraeg da sydd yn dymuno gweithio yn yr ardal.

Gobeithiaf o'r galon eich bod yn fodlon codi'r mater hwn yng Nghaerdydd, o safbwynt cau'r cwrs yng Nghaerdydd, a'r agwedd gan brifysgolion yn Lloegr bod gweithio mewn awdurdod addysg ac ysgolion yng Nghymru yn brofiad llai gwerthfawr na gweithio mewn awdurdodau ac ysgolion yn Lloegr.

Yn gywir

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN
GWYNEDD COUNCIL AND ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig • Special Educational Needs Joint Committee
Plas Llanwnda, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH
☎ 01286 679 Ffacs/Fax 01286 679912

Ein Cyf • Our Ref: Gofynnwch am • Ask for:

Mr Albert Owen AS
18 Thomas Street, Holyhead,Anglesey
LL65 8RR
Houses of Parliament, Westminster, London
SW1A 2TT

22/11/13

Annwyl Albert Owen

**Anawsterau Trefnu Hyfforddiant i Seicolegwyr Addysgol yng Nghymru**

Mae'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysg Arbennig yn darparu gwasanaethau seicoleg addysgol i awdurdodau addysg Ynys Môn a Gwynedd, ac rwyf yn ysgrifennu i dynnu'ch sylw at **argyfwng** sydd wedi codi yn y proffesiwn seicoleg addysgol yng Nghymru, ac erfyn arnoch i wneud popeth sydd o fewn eich gallu i'n helpu.

Mae seicolegwyr addysgol yn gweithio efo ysgolion ac awdurdodau addysg i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd ag anghenion addysgol pob plentyn, yn enwedig y plant sydd ag anghenion addysgol arbennig, neu ychwanegol. Rydym yn wasanaeth statudol ac yn cymryd rhan allweddol yn y broses o lunio a gweithredu Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig yn ôl Deddf Addysg1996.

Yr argyfwng sydd wedi codi yw hyn: mae newidiadau diweddar yn y ffordd mae seicolegwyr yn cael eu hyfforddi wedi arwain at sefyllfa lle mae hi, i bob pwrpas, yn amhosibl i neb o Gymru gael lle ar gwrs hyfforddiant.

Y llwybr i hyfforddiant yw: gradd gyntaf mewn seicoleg, profiad amrywiol yn cynnwys gweithio efo plant, (a all fod, ond nid yn angenrheidiol fel athro,) a chwrs proffesiynol tair blynedd yn arwain at radd ddoethuriaeth.

Mae amryw o gyrsiau ym mhrifysgolion Lloegr ac, tan yn ddiweddar, ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'r cwrs yng Nghaerdydd yn cau eleni (gweler y papur ynghlwm, gan gyfarwyddwyr y cwrs). Cyhoeddwyd hyn ar 25/10/13.

Nid yw'n ymarferol i ddarpar-seicolegwyr sydd yn byw, ac yn dymuno gweithio fel seicolegwyr wedyn, yng Nghymru wneud cais am gwrs yn Lloegr. Mae hyn oherwydd , yn ogystal â mynychu'r cwrs am dair blynedd, mae'n ofynnol iddyn nhw

wedyn weithio fel seicolegwyr addysgol i awdurdod addysg, neu mewn ysgolion, yn Lloegr. **Ni ystyrir gweithio mewn awdurdod addysg yng Nghymru yn gyfystyr â gweithio yn Lloegr - ni fyddai hyn yn dderbyniol ganddynt.**

Mae hyn oll yn codi problemau difrifol mewn sicrhau cyflenwad o seicolegwyr proffesiynol yn ein hysgolion a'n hawdurdodau yng Nghymru. Yn anochel byddai nifer helaeth o'r seicolegwyr rheini sydd wedi mynd i Loegr i hyfforddi yn penderfynu aros yna i weithio yn y tymor hir, o ystyried nad ydynt yn bobl ifanc yn syth o Goleg, oherwydd yr angen i gael profiad cyn mynd ar gwrs, ac y byddent erbyn diwedd y 5 mlynedd efo swyddi yn Lloegr.

Mae'r broblem yn llawer mwy dwys yn ein cyd-destun ni yma yn Ynys Môn a Gwynedd, ac yn **wir argyfwng yn barod**, oherwydd yr angen i ddarparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hanesyddol rydym wedi profi anawsterau cyflogi seicolegwyr sydd yn rhugl yn Gymraeg, ac wedi cyflogi unigolion fel seicolegwyr tan hyfforddiant, a gwneud trefniadau iddynt hyfforddi a dod yn ôl i'r awdurdodau i weithio. Ar hyn o bryd mae 9 seicolegydd yn gweithio i'r gwasanaeth, a bu i 7 ohonynt ddilyn y patrwm hyfforddiant yma.

Yn ddiweddar mae seicolegwyr wedi gadael ein gwasanaeth ac rydym wedi methu cyflogi seicolegwyr cymwys sydd yn siarad Cymraeg yn eu lle, er hysbysebu'n genedlaethol dwy waith o fewn y 8 mis diwethaf.

Mae arolygiadau blynyddol rydym yn eu cynnal wedi dangos bod yr ysgolion yn gwerthfawrogi'n gwasanaeth, ond nid ydym yn gallu cynnig cystal gynhaliaeth ar hyn o bryd, gyda llai o gysylltiad rheolaidd â'r ysgolion, ac wedi cyflogi seicolegydd sy'n ddysgrwraig.

**Yn arbennig**, rydym wedi cyflogi dwy seicolegwraig tan hyfforddiant sydd yn brofiadol iawn ac o safon addysgol eithriadol o dda, ac erbyn hyn yn barod i wneud cais am gyrsiau yn dechrau Medi 2014. Ond nid yw'r cwrs yng Nghaerdydd yn weithredol bellach ac nid ydynt yn dymuno mynd i hyfforddi yn Lloegr, ac wedyn gorfod gweithio yna am ddwy flynedd yn ychwanegol. Maent yn Gymry Cymraeg da sydd yn dymuno gweithio yn yr ardal.

Gobeithiaf o'r galon eich bod yn fodlon codi'r mater hwn yn San Steffan, **yn arbennig o safbwynt yr agwedd yma gan brifysgolion yn Lloegr bod gweithio mewn awdurdod addysg ac ysgolion yng Nghymru yn brofiad llai gwerthfawr na gweithio mewn awdurdodau ac ysgolion yn Lloegr.**

Yn gywir

Gareth Payne
Prif Seicolegydd Addysgol

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig** |
| DYDDIAD | **10 Rhagfyr 2013** |
| TEITL YR ADRODDIAD | **Adolygiad Cyllideb 2013/2014** |
| ADRODDIAD GAN | **Pennaeth Gwasanaeth Cyllid** |

---

**Adolygiad Cyllideb 2013/2014**

Mae'r gyllideb yn ymgorffori cost cytundebau cyflog, incrementau cyflogau, addasiad yswiriant gwladol a chwyddiant ar y gyllideb am 2013/14. Cynnydd o 1.2% yng nghyfraniad Awdurdodau Gwynedd ac Ynys Môn.

Dyma yw sefydliad staffio cyfredol y Cyd-bwyllgor -

- **nifer cymareb llawn amser**
- 8.1 seicolegwyr
- 7.6 athrawon cynhaliol
- 6.4 staff gweinyddol

Fel mae adroddiad yr Uned Ddarparu yn cyfeirio, mae nifer o swyddi wedi bod yn wag yn ystod y flwyddyn ynghyd âg absenoldebau mamolaeth, gyda'r Uned yn methu darganfod staff i gyflenwi. Mae hyn yn arwain at amcangyfrif o danwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyd-Bwyllgor AAA eleni. O fewn y tri tîm staff, mae tanwariant o –

- Seicolegwyr £99,950
- Athrawon cynhaliol £24,200
- Staff gweinyddol £14,050
- Cyfanswm £138,200

Rhagwelir hefyd danwariant ar gostau hyfforddi oddeutu £4,520 yn ddibynnol ar drefnu a mynychu cyrsiau cyn diwedd mis Mawrth 2014.

Amcangyfrifir gorwariant ar bennawd post oddeutu £1,700 ac hefyd lleihad oddeutu £5,890 yn yr incwm mae'r Cyd-Bwyllgor AAA yn gynhyrchu trwy ddarparu hyfforddiant a gwerthu cyhoeddiadau i ysgolion ac i'r Awdurdodau.

Golygai hyn amcangyfrif tanwariant oddeutu £135mil yng nghyfrifon eleni. Mae hyn yn ychwanegol i'r balansau (diwygiedig) o £166,351 sy'n cario drosodd o 2012/13. Amcangyfrifir felly balansau oddeutu £300mil ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma.

Mae staff y Cyd-Bwyllgor ynghyd â swyddogion o'r ddau awdurdod wedi rhoi trefniadau dros dro mewn lle i atgyfnerthu'r lefel staffio ac yn parhau i ystyried y defnydd gorau o'r balansau sydd yn weddill er budd plant ac ysgolion Gwynedd a Môn.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a mabwysiadu'r gyllideb am 2013/2014 a derbyn diweddariad pellach o ddefnydd o balansau'r Cyd-Bwyllgor AAA yn y cyfarfod nesaf.

## CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

### CYLLIDEB 2013/2014 ac ADOLYGIAD

| | strwythur staffio Ebrill 2013 | Cyllideb 2012/2013 £ | chwyddiant a chostau eraill £ | Cyllideb 2013/2014 £ | **adolygiad 2013/14 £** | - tanwariant + gorwariant £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | | |
| Cyflogau | | | | | | |
| - Seicolegwyr | (8.1) | 511,670 | 9,820 | 521,490 | **421,540** | -99,950 |
| - Athrawon Cynhaliol | (7.6) | 377,350 | 2,360 | 379,710 | **355,510** | -24,200 |
| - Gweinyddol | (6.4) | 182,890 | 2,630 | 185,520 | **171,470** | -14,050 |
| Hyfforddiant | | 9,520 | 0 | 9,520 | **5,000** | -4,520 |
| Yswiriant Atebolrwydd | | 2,660 | 60 | 2,720 | **2,720** | 0 |
| Adeilad | | | | | | |
| Trethi | | 5,090 | -330 | 4,760 | **4,760** | 0 |
| Rhent a Gwasanaethau | | 10,770 | 190 | 10,960 | **10,960** | 0 |
| Cludiant | | | | | | |
| Costau Teithio | | 50,780 | 0 | 50,780 | **50,780** | 0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | | |
| Adnoddau / Deunydd Swyddfa | | 17,480 | 0 | 17,480 | **17,480** | 0 |
| Ffôn | | 8,600 | 0 | 8,600 | **8,600** | 0 |
| Post | | 1,800 | 0 | 1,800 | **3,500** | 1,700 |
| Costau Canolog Ynys Môn | | 1,630 | 0 | 1,630 | **1,630** | 0 |
| Costau Canolog Gwynedd | | 4,810 | 50 | 4,860 | **4,860** | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 1,185,050 | 14,780 | 1,199,830 | **1,058,810** | -141,020 |
| **Incwm** | | | | | | |
| Incwm Allanol | | 8,740 | 150 | 8,890 | **3,000** | 5,890 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | | 721,900 | 8,980 | 730,880 | **730,880** | 0 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | | 454,410 | 5,650 | 460,060 | **460,060** | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | | 1,185,050 | 14,780 | 1,199,830 | **1,193,940** | 5,890 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | | 0 | 0 | 0 | **-135,130** | -135,130 |

**balansau 31/03/2013 diwygiedig** £166,351

**amcan balansau erbyn diwedd y flwyddyn 2013/14** £300,000